# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

**1 Mawrth 2023**

Yn bresennol (yn bersonol)
Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Mr G Jones a'r Cynghorydd Mrs V Thomas.

Yn bresennol (o bell)
Cynghorydd M James, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

Roedd Matthew Brushett a Philippa Dixon o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol o bell.

(Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell: 10.00am -11.25am; 11.35am – 1.30pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2022.

**4. Materion yn Codi / Log Gweithredu**

a) Archwilwyr Mewnol (Cofnod 6)
Yn dilyn proses o recriwtio, dywedwyd bod y cwmni Astari wedi'i benodi yn Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod o 1 Ebrill.

b) Cwyn ynglŷn â'r Iaith Gymraeg (Cofnod 7)
Roedd hyn bellach wedi'i gyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg.

c) Ymwybyddiaeth Seiber (Cofnod 13)
Dywedwyd y byddai'r Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Seiber yn cael ei lanlwytho i'r Porth Dysgu Ar-lein ELMS yr wythnos hon ac y byddai ar gael i'r Aelodau yn y dyfodol agos. Roedd y dolenni i'r adroddiad wedi'u dosbarthu. Byddai Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno maes o law.

d) Cymynrodd (Cofnod 10)
Hysbyswyd bod llythyr wedi'i ysgrifennu, drwy'r Cyfreithiwr, at y teulu i gydnabod y rhodd.

**NODWYD.**

**5. Crynodeb Archwilio Blynyddol**

Dywedodd Matthew Brushett bod crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd fis Chwefror 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw ar gyfer 2021/22 yn nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a bod y dystysgrif cwblhau wedi'i chyhoeddi. Hefyd dywedwyd bod prosiect wedi'i gynnal ar draws y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru i weld pa mor effeithiol yw ymagwedd yr Awdurdodau at dwristiaeth gynaliadwy, yn unigol ac ar y cyd. Roedd adroddiadau ar draws meysydd eraill o lywodraeth leol hefyd wedi'u gwneud, a chyfeiriwyd at yr adroddiadau hyn yn ogystal, ynghyd ag amlinelliad o'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2022-23.

Roedd un Aelod o'r farn nad oedd y paragraff cryno mewn perthynas â'r adolygiad o Dwristiaeth Gynaliadwy yn amlygu'r casgliadau cadarnhaol ar y cyfan y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad, nac ychwaith y bartneriaeth gref rhwng yr Awdurdod a Croeso Sir Benfro. Hefyd roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd pob un o'r astudiaethau llywodraeth leol yn berthnasol, tra bod eraill, megis parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030, sef astudiaeth yr oedd yr Awdurdod wedi cyfrannu ato, heb eu rhestru. Dywedodd yr Archwilydd y gellid dod o hyd i bob un o'r cyhoeddiadau ar wefan Archwilio Cymru, a bod pob un ohonynt yn berthnasol, i wahanol raddau, i'r Awdurdod, ond yn y dyfodol ystyrir gwneud y rhestr o adroddiadau y cyfeirir atynt yn y Crynodeb Blynyddol yn fwy defnyddiol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Rheolwr Cyllid a'i dîm am y farn archwilio ddiamod, a diolchodd i'r Archwilwyr am eu hadroddiad.

**NODWYD.**

**6. Cofrestr Risg**

Dywedwyd bod gwaith wedi'i wneud i ailgynllunio'r Gofrestr Risg yn dilyn adolygiad gan yr Archwilwyr Mewnol o'r dulliau Rheoli Risg. Roedd y Tîm o Arweinwyr yr Awdurdod wedi cynnal cyfarfod penodedig i adolygu'r gofrestr risg yn fanwl, ac o ganlyniad, roedd y gofrestr wedi'i rhesymoli i leihau nifer y prif risgiau, bod y risgiau atodol wedi'u clustnodi, a swyddogion wedi'u neilltuo i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bob risg. Roedd y

broses adolygu yn parhau, ac y byddai'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried y Gofrestr Risg yn rheolaidd.

Roedd yr Aelodau yn falch bod y Gofrestr ddiwygiedig yn canolbwyntio ar y risgiau lefel uwch yr oedd angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a hefyd bod perchennog risg wedi'i briodoli i bob risg. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r prif newidiadau i'r gofrestr risg gael eu hamlygu mewn adroddiadau yn y dyfodol fel y gwnaed yn flaenorol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch rheoli'r risgiau hynny ar y rhestr atodol a'r modd yr oeddent yn cael eu huwch-gyfeirio i'r brif Gofrestr, gan gynnwys a oedd y mathau o risg - strategol, ariannol, enw da a chyfreithiol - yn cael unrhyw effaith. Atebodd y Prif Weithredwr bod amryw o opsiynau y gellid eu cymryd i ystyried y Gofrestr Risg gyflawn, gan gynnwys bod y Pwyllgor yn ystyried y prif risgiau unigol yn eu tro, ynghyd â'r rhestr ehangach sy'n atodol iddynt, neu ddosbarthu'r gofrestr atodol drwy'r e-bost. Roedd angen rhagor o waith ar y parodrwydd i dderbyn risg, a byddai gweithdy i bob Aelod yn cael ei gynnal yn y misoedd nesaf lle gellid trafod yr holl faterion hyn. Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid y byddai'n dosbarthu Strategaeth Rheoli Risg yr Awdurdod cyn cynnal y Gweithdy.

Gan droi at y risgiau penodol, roedd Risg 9 yn amlygu'r risgiau sy'n ymwneud ag effaith newid yn yr hinsawdd, ond awgrymwyd bod angen gwneud mwy gan fod y risg hon yn y categori coch. Nodwyd hefyd nad oedd llifogydd wedi'i restru ar wahân, ac y byddai hyn yn cael effaith enfawr ar gymunedau arfordirol y Parc. Dywedodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu y byddai gweithdy ar beryglon llifogydd yn cael ei gynnal unwaith y byddai'r ymgynghoriad ar TAN 15 wedi dod i ben. Dywedwyd hefyd bod Cynllun Ymaddasu i'r Newid Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro wedi derbyn sêl bendith, ac y byddai cyflwyniad ar y Cynllun hwn yn cael ei drefnu.

Roedd cwestiwn arall yn ymwneud â phlannu coed mewn ymateb i'r Clefyd Coed Ynn (Risg 36) a'r gost oedd hynny yn ei olygu, a dywedodd y Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth bod gan yr Awdurdod gynllun plannu coed ehangach, nid yn benodol mewn ymateb i'r Clefyd Coed Ynn, ac y byddai diweddariad ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod yn y dyfodol. Dywedwyd y bydd angen diweddaru'r mesurau lliniaru ar gyfer y risg hon o bosibl, ac y gellid ysgrifennu risgiau eraill mewn modd sy'n diffinio'r risg yn well, a hefyd bod angen cwblhau cofnodion y Gofrestr sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch a hefyd Cyflogau a Graddfeydd yn gywir.

**NODWYD.**

**7. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23**

Dywedwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor er mwyn derbyn sylwadau. Roedd y ddogfen yn nodi fframwaith llywodraethu yr Awdurdod, y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â materion llywodraethu a glustnodwyd yn flaenorol, yn ogystal ag adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith o ran yr egwyddorion a glustnodir yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gytuno mewn cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol, a byddai'n dod yn Atodiad i'r Cyfrifon Blynyddol.

Dywedodd y Cadeirydd bod rhywfaint o ailadrodd rhwng y gwahanol adrannau, ac y gallai dogfen mwy cryno fod yn fwy effeithiol. Roedd y swyddogion yn cydnabod bod cydbwysedd yn y ddogfen rhwng bod yn gyflawn a bod yn ddarllenadwy, ond roeddent o'r farn bod angen rhywfaint o ddyblygu rhwng gwahanol adrannau'r ddogfen. Awgrymwyd hefyd y gallai diagram yn dangos cydberthynas yr Awdurdod a'i Bwyllgorau fod yn ddefnyddiol, yn ogystal â diagram ar y tair llinell amddiffyn yn y system rheoli mewnol, hynny yw, proses yr Awdurdod, yr archwilio mewnol, a'r Aelodau/Archwiliad Allanol. Anogwyd yr Aelodau i roi adborth yn uniongyrchol i'r swyddogion os oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach.

**NODWYD.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25am a 11.35am]

**8. Perfformiad y Gyllideb am y Naw Mis yn diweddu Rhagfyr 2022**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi'r gyllideb refeniw net fanwl am y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2022 oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £3,898k, sef £291k (7.0%) o dan y gyllideb broffiliedig. Dywedodd bod gwall teipograffyddol yn nheitl ail golofn y tabl ddylai fod wedi darllen Cyllideb Net 22/23, a gwall arall ar waelod y dudalen ganlynol lle'r oedd cyllideb Rheoli Hamdden a Pharciau yn £116k <u>o dan</u> y gyllideb. Roedd y prif resymau dros yr amrywiad mewn gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb yn yr adrannau gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Mewn ateb i gwestiwn, dywedwyd bod yr amrywiad o -459% yn y Gyllideb Rheoli Hamdden a Pharciau i'w briodoli i berfformiad rhagorol meysydd parcio yr Awdurdod, er bod hyn yn is na'r llynedd. O dan yr un pennawd nodwyd hefyd y baich costau ychwanegol mewn perthynas â gwaith ar lwybr yr arfordir, a chafwyd trafodaeth wedyn ynglŷn â'r anghyfleustra a achosir pan oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyr yn talu eu cyfraniad. Sicrhaodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor y byddai'n codi'r mater mewn cyfarfod gyda'u Prif Weithredwr yn yr wythnosau nesaf, a gallai hefyd

gael ei godi yn y cyfarfod sydd i ddod gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd y trydydd chwarter, y sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2022/23 oedd gwarged gweithredol o £55k yn erbyn dim gwarged yn y gyllideb wreiddiol, a nodwyd y rhesymau am hyn yn yr adroddiad. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y disgwylir derbyn cyllid pellach yn ystod y flwyddyn oddi wrth Llywodraeth Cymru cyn diwedd y mis ac y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r prosiectau presennol; fodd bynnag byddai rheoli'r prosiectau a pharatoi'r adroddiadau fyddai eu hangen yn golygu costau.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi gostwng o'r gyllideb wreiddiol o £1,127k i gyllideb ddiwygiedig o £1,079k. Roedd y rhagolwg i lawr oherwydd yr oedi ar y gwaith o ddatblygu'r Ystafell Werdd, y disgwylir bellach i ran ohono gael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24, a chynnydd oherwydd gwariant a gariwyd ymlaen o 2021/22, yn arbennig ar uwchraddio'r Fflyd a'r Mannau Gwefru Cerbydau Trydan. Yn ogystal, dan y cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy roedd disgwyl i Goetir Cymunedol gael ei brynu.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd bod disgwyl y byddai gwarged o £55k i'w ychwanegu at y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, gan fynd â'r gronfa i £1.196k. Byddai'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw a chyfalaf yn ystod y flwyddyn, ac roedd disgwyl i'r cronfeydd hyn ddisgyn i £221k a £4018k yn y drefn honno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr anhawster o glustnodi'r gwaelodlin ar gyfer gosod cyllidebau oherwydd effeithiau Covid, ac atebodd y Rheolwr Cyllid bod cyllidebau 23/24 mor dynn ag y gallent fod, oherwydd y diffyg ariannol a ragwelwyd; ychwanegodd nad oedd yn rhagweld y byddai gwarged y flwyddyn nesaf. Roedd y Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth wedi talu teyrnged i'r staff, yn enwedig y Tîm Gwasanaethau Ymwelwyr, am reoli'r niferoedd cynyddol o ymwelwyr, a diolchodd yr Aelodau iddynt am eu holl waith.

**NODWYD.**

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr M James ac S Skyrme-Blackhall gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**9. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2022**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau am 2022/23. Wrth i'r Awdurdod fynd drwy gyfnod o newid,

roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Rhagfyr ac yn cynnwys ystadegau C1 i C3 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn coch neu ambr neu lle bu cynnydd cadarnhaol ers yr adroddiad blaenorol. Eglurwyd mai'r unig weithred mewn coch oedd yr un yn ymwneud â'r prosiect Ymchwil ar Ddigwyddiadau Cynaliadwy Allanol a bod y gwaith gyda'r brifysgol bellach wedi'i gau oherwydd bod cyn lleied o gynnydd ar y prosiect, a hynny o ganlyniad i Covid. Byddai diweddariad ar y goblygiadau ariannol o ddod â'r prosiect hwnnw i ben yn cael ei ddarparu.

Rhoddwyd rhai diweddariadau i'r adroddiad yn y cyfarfod, a nodwyd bod rhai newidiadau i'r ffigurau perfformiad cynllunio o ran canran y ceisiadau a benderfynwyd ar amser, canran y ceisiadau a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig, a nifer yr achosion gorfodi. Byddai'r ffigurau cywir yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol maes o law. Nodwyd bod y tîm cynllunio yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau, fodd bynnag roedd hyn yn cael effaith negyddol ar y ffigurau perfformiad yn y tymor byr. Gwaethygwyd y sefyllfa gan yr amser a gymerwyd i gytuno ar Gytundebau A106, a chytunodd y Cyfarwyddwr i weld a ellid adrodd ar y ffigur hwnnw ar wahân yn y dyfodol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn ceisio recriwtio staff ychwanegol i'r Tîm Rheoli Datblygu, er bod hynny yn heriol.

Nodwyd gwall teipograffyddol ar frig tudalen 67 o ran y dyddiad yr oedd y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy wedi ystyried y ceisiadau Gwyrddu Amaethyddiaeth fis Chwefror 2023.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y gyfradd uchel o absenoldeb salwch, a'r bwlch ariannu posibl o ran y prosiect Dewch i Gerdded. O ran yr absenoldeb salwch, eglurodd y Rheolwr AD bod y ffigurau wedi'u gogwyddo gan nifer fach o staff sydd â phroblemau iechyd rheolaidd, fodd bynnag roedd y problemau hyn yn cael eu rheoli gan raglen o gynnig cymorth. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i'r prosiect Dewch i Gerdded a'i fod yn disgwyl derbyn cyllid.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am ddiweddariad ar yr oedi o ganlyniad i'r newid yn strwythur y sefydliad, ac atebodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar y cynlluniau cyflawni yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gynnal ddiwedd y mis, tra byddai'r gwaith o roi'r strwythur yn ei le yn cael ei gwblhau yn yr ychydig wythnosau nesaf.

**NODWYD.**

**10. Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad y Rheolwr Adnoddau Dynol yn ymwneud â’r digwyddiadau a’r damweiniau, y gwaith a wneir yng Nghanolfan Coetir Cilrhedyn, monitro diogelwch, Hyfforddiant, absenoldeb salwch staff, a rheoli sŵn.

Gofynnodd un Aelod am ragor o fanylion am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddamwain fu bron digwydd yn sgîl digwyddiad nyten olwyn, ac eglurodd y swyddogion bod datganiad am y dull o drin cerbydau yn cael ei ddatblygu yn ogystal ag addysgu aelodau’r staff; byddai diweddariad ar hyn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Roedd log Iechyd a Diogelwch hefyd yn cael ei greu i fonitro risgiau. O ran absenoldeb salwch, gofynnodd yr Aelodau am waelodlin a chymhariaeth ag awdurdodau eraill, a dywedodd y Rheolwr AD y gellid cyflwyno’r wybodaeth hon fel rhan o’r adroddiadau i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol gan fod y wybodaeth hon eisoes yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor AD. Fodd bynnag roedd cyfraddau absenoldeb yr Awdurdod yn cymharu'n dda â'r sector cyhoeddus ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill.

**NODWYD.**

**11. Cylch Gorchwyl y Grŵp Iechyd a Diogelwch**

Dywedodd y Rheolwr AD bod Cylch Gorchwyl y grŵp hwn wedi'i adolygu i sicrhau bod rheolwyr ar draws yr Awdurdod yn cymryd rhan yn y dyfodol, a bod y cylch gorchwyl wedi'i atodi er gwybodaeth a derbyn sylwadau. Byddai'r Grŵp yn derbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau, a byddent yn adrodd yn ôl i Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod ac i'r Pwyllgor hwn.

Awgrymodd y Cadeirydd bod angen monitro presenoldeb aelodau'r Grŵp mewn sesiynau hyfforddiant, ychwanegu monitro digwyddiadau RIDDOR at y rhestr o rolau a chyfrifoldebau, a chynnwys datganiad ynghylch atebolrwydd a chyfrifoldeb. Gofynnodd am i'r cylch gorchwyl terfynol gael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr AD y byddai'r Grŵp hefyd yn ymdrin ag iechyd a diogelwch y cyhoedd a chontractwyr, gyda rhai aelodau o’r staff yn aelodau o'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr. Ychwanegodd bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch i ysgogi gwelliannau i iechyd a diogelwch ar draws pob agwedd ar waith yr Awdurdod.

**NODWYD.**

**12. Eithrio'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**13. Dirgryniad Braich Llaw**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, yn dilyn ymweliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fis Rhagfyr 2022, wedi'i gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn sefydlu ac yn gweithredu rhaglen o gamau gweithredu i leihau lefelau'r achosion o ddod i gysylltiad â dirgryniadau braich llaw i mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd yr Awdurdod wedi penderfynu peidio ag apelio yn erbyn y rhybudd ac y byddai'n ymateb yn llawn i'r llythyr, gan nodi ei gynllun gwella. Roedd y Cynllun Gweithredu wedi'i ddarparu i'r Aelodau.

Atebodd y swyddogion nifer o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor, a chytunwyd i roi diweddariadau cyson.

**NODWYD.**

**14. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023 heb eu diwygio. |